**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS/MS
Llywydd Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mehefin 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, paragraff 3, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod cyn iddo gael ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i estyn y moratoriwm a gyflwynwyd gan adran 82 o Ddeddf Coronafeirws 2020 ("y Ddeddf"), sy'n gwahardd arfer yr hawl ailfynediad neu fforffediad o dan denantiaeth busnes berthnasol am fethu talu rhent, drwy gymryd camau gorfodi neu fel arall. Yn wreiddiol roedd y Ddeddf yn ymdrin â'r cyfnod a fydd yn dod i ben ar 30 Mehefin 2020. Fodd bynnag, mae'r offeryn statudol yn estyn y warchodaeth am dri mis arall, a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod y mater hwn â Llywodraeth y DU, mewn perthynas â Chod Ymarfer ar gyfer landlordiaid a thenantiaid sydd â'r nod o hybu gwell cydweithredu rhwng partïon sy'n ymdrin â'r heriau mae COVID-19 yn eu peri i fusnesau, wrth iddo effeithio ar drefniadau tenantiaeth fusnes. Er mwyn rhoi digon o amser i'r partïon perthnasol ystyried y Cod, mae'r Rheoliadau wedi cael eu gosod lai na 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym.

Byddai peidio â dod â'r Rheoliadau i rym o 30 Mehefin yn arwain at fwlch annymunol yn y mesurau diogelu sydd â'r nod o hyrwyddo sefydlogrwydd a chadernid ar adeg sy'n hynod anodd i economi Cymru. Credir bod torri'r confensiwn 21 diwrnod yn angenrheidiol yn yr achos hwn ac y gellir cyfiawnhau gwneud hynny.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ynghlwm er gwybodaeth ichi; Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn, ac mae hefyd wedi cael ei

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r ddau yn cael eu gosod gyda'i gilydd, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw MS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd